

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10ed o Hydref 2017.

**1. Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), OP Huws, Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Nerys Williams, Justin Davies, Barry Bracegirdle – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, Dafydd Wyn Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle. Judith Humphreys – Cynghorydd Sir. Mark Billingham, Tim Heatley, Nigel, a Ffion Llwyd-Jones – Dorothea Lakes eitem 2 yn unig. / **Ymddiheuriadau:** Dafydd Thomas – Nebo; Dylan Herbert – Penygroes; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd.

**2. Gwadd: Dorothea Lakes – Ffion Llwyd-Jones, Mark Billingham a Tim Heatley.** Fe'u croesawyd i'r cyfarfod- rhoddwyd y rheolau sefydlog i un ochr, ac fe gynhaliwyd y drafodaeth yn Saesneg. Cafwyd cyfle i drafod yn anffurfiol, ac fe rannodd y perchnogion eu gweledigaeth ar gyfer cynllun hydro ar y safle gyda'r Cynghorwyr. Trafodwyd llwybrau cyhoeddus, a'r dymuniad gan y cwmni i warchod ac adfer llwybrau ar y safle. Gofynwyd i'r Cynghorwyr drosglwyddo neges i'r cyhoedd i adrodd am unrhyw ymddygiad amhriodol i'r heddlu. Roedd y cwmni yn dweud eu bod am geisio ffyrdd i sicrhau atal 'tombstoning' a mynediad i adeiladau anniogel. Dywedasant fod cynlluniau arfaethedig ar gyfer rheoli diogelwch plymio ar y safle, wedi ei reoleiddio gan ddarparwyr trwydded, a chyfleusterau toiled ar gyfer pobl yn plymio. Roedd y cwmni yn awyddus i gadw cysylltiad barhaus efo'r Cyngor Cymuned, ac yn rhagweld amserlen o rhyw 3-4 mlynedd cyn gallu cwblhau'r broses gynllunio yn gyntaf.

**3. Cynghorwyr Sir.** Craig ab Iago – Bollards Llanllyfi ac ymateb Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd copi o ebyst. Rhoddodd Judith adroddiad i'r Cyngor yn malylu'r holl faterion oedd wedi delio a hwy dros y mis a cafwyd cyfle i'r Cynghorwyr roi sylwadau. Yn ogystal, derbyniwyd copi o'r adroddiad yn ysgrifenedig. Justin am gyfarfod Judith i edrych ar sefyllfa lloches bws Heol y Dwr.

**4. Cyfethol.** Dim enw ychwanegol eto i sedd wag ward Penygroes.

**5. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.

**6. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Medi.** Hefina yn datgan cywirdeb y cofnodion a Barry yn eilio.

**7. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Cwningod MacPelah – Dafydd yn adrodd yn ol, fod cwningod wedi eu dal yn y fynwent; Cerrig Hafod Unos; Canglwm Siapaneaidd – rhannu'r ohebiaeth efo Dafydd Thomas pan ddaw ynol oddi ar ei wyliau; Cwtin – penderfynwyd gofyn am bris ychwanegol am dorri'r cae pellaf ar dendr newydd torri gwair y Cyngor Cymuned o'r flwyddyn nesaf ymlaen; Cyfarfod rhwng Cynhorwyr Llanllyfni wedi ei drefnu at wythnos nesaf i drafod parcio yn y pentref.

**8. Taflen Ariannol a Chyllid.** Trafodwyd y cyfarfodydd cydweithio sydd yn cael eu cynnal yn y Neuadd Goffa ym Mhenygroes – **Penderfynwyd** ad-dalu OP Huws; Rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd wedi ei yrru i bwyllgor Soar gan nad oes bil wedi ei dderbyn ers Rhagfyr 2014. Derbyniwyd y daflen yn gywir, ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**9. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Grwp Cyngorau ar y Cyd – Cytundebau llwybrau a mynwentydd. Nid oedd cynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Llanwnda, ac felly penderfynwyd symud ymlaen heb eu cynnwys fel rhan o'r gytundeb llwybrau. Alun Wyn Jones yn cytuno i fod yn hwylusydd, a hysbysebu. Penderfynwyd peidio a manylu dyddiadau ar gyfer y toriadau ychwanegol i fynwentydd CCLlanllyfni. Penderfynwyd ar gytundeb 3 mlynedd gydag adolygiad o 12 mis. Prisiau yn ol erbyn diwedd Tachwedd I'r 'Partneriaeth'. Penderfyniad terfynnol i ddod ger bron y Cyngor llawn. Cafwyd adroddiad gan OP Huws a diweddariad ar ymholiadau cynlluniau ynni adnewyddol Trem yr Wyddfa a'r Stad Ddiwydiannol. Aros am asesiad ar gyfer y Stad Ddiwydiannol.

**10. Cynllunio NP3/22/73B – Y Bryn, Victoria Terrace, Nantlle –** sied amaethyddol - caniatáu; C17/0869/22/LL – Plot 7 Stad Ddiwydiannol Penygroes – newid tir ar gyfer storio carafannau a modurau ynghyd a chodi ffens 8m o amgylch y safle - caniatáu; C17/0865/22/LL – Uned6B Stad Ddiwydiannol Penygroes – cais ar gyfer codi uned diwydiannol gyda lle storio a trin moduron gyda cadw offer cysylltiedig a swyddfa busnes - caniatáu.

**11. Gohebiaeth.**

**\*Cyngor Gwynedd:** Ymatebion priffyrdd. Dim yn ychwanegol i'w adrodd.

**\*Toiledau Penygroes –** fe'n hysbyswyd gan Judith na fyddai'r toiledau yn cau tan fis Tachwedd.

\*Addysg- Llywodraethwyr- Enwebwyd y canlynol i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y byrddau llywodraethu yn yr ysgolion – Ffion Ysgol Baladeulyn, Dafydd Ysgol Nebo, Harry Ysgol Talysarn, Gwyndaf Ysgol Llanllyfni, Nerys Ysgol Bro Lleu, Barry Ysgol Dyffryn Nantlle.

**\*Arall**

\*Un Llais: Rhannwyd yr ohebiaeth isod I'r Cyngorwyr drwy ebost yn ystod y mis. Dim sylwadau.

Addysg a Gwella Iechyd

Cynigion Cynhadledd Un Llais

Cynlluniau Newydd wedi Agor

Cynnal Cymru

Bwletin Un Llais

LGBC Ymgynghoriad

Canllaw Ymgynghoriad

Adolygiad CTC

Cyllideb Drafft

Panel Annibynnol Cymru Adroddiad Drafft.

\*Berwyn Jones – Parcio ym Mhenygroes – cais am safleoedd parcio newydd ar gyfer trigolion Stryd yr Orsaf (ger Wynnstey) gofynwyd i'r Clerc yrru'r ohebiaeth ymlaen i Gyngor Gwynedd. Justin am fynd i edrych ar y safle dan sylw.

12. **Tendr Goleuadau Nadolig** Neb wedi ymateb i'r tendr a roddwyd yn y Caernarfon and Denbigh.

Awgrymwyd cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt am restr o drydanwyr maen nhw yn eu defnyddio yn y Cyngor.

13. **Eglwys Talysarn a'r cofebion.** Derbyniwyd caniatad yr Eglwys i'r Cyngor Cymuned symud y cofebion o du fewn yr Eglwys ac o'r tu allan i leoliad newydd. Fe'n hysbyswyd fod bwriad i werthu adeilad yr Eglwys. Trafodwyd lleoliadau posib fel tu allan i Ganolfan Talysarn, neu yn y fynwent. Harri am holi Iolo o Roberts and Owen os y byddent yn fodlon symud y cofebion ar ein rhan. Holi yn lleol am leoliadau posib.

14. **Cofeb Penyrsedd.** Derbyniwyd hen gofnodion pwyllgor y gofeb gan Ffion. Gofynwyd i'r Clerc holi Un Llais am gyngor parthed y cyfrif banc sydd wedi ei gau. Y swyddogion oedd ar y pwyllgor bellach wedi marw.

15. **Trefniadau Archwilio Cyfrifon – Archwilydd Mewnol.** Angen cysylltu efo John Roberts i gadarnhau os ydy o dal yn bwriadu ymddeol, er mwyn cael digon o amser i edrych am archwilydd mewnol newydd. Derbyniwyd canllawiau drafft gan Un Llais a swydd ddisgrifiad/cytundeb drafft.

16. **Materion Pentrefi Nantlle** Atgoffa'r heddlu am fonitro gor-yrru yn Nantlle – nifer o yrrwyr ddim yn cymryd sylw o'r arwyddion. Talysarn Arwyneb y llwybr heibio ystafelloedd newid y Celts yn fwd i gyd, a dim posib cerdded arni. Y broblem hon wedi codi ers creu y trac BMX gan na roddwyd yr arwyneb yn ol I'r un safon. Gofyn i Gyngor Gwynedd edrych a rhoi llechi ar yr arwyneb. Penygroes Bryn Llwyn – cysylltu efo'r adran ysbwriel Cyngor Gwynedd fod bin brown wedi ei lenwi efo deunydd ty yn Bryn Llwyn, a gofyn wrthynt fynd a'r bin a'i gynnwys oddi yno (wrth Wynstanley); Y mwd wedi ei lanhau o flaen y fflatiau a cherrig man wedi eu rhoi i atal i'r mwd ddychwelyd. Llanllyfni Cerbydau yn cael eu parcio ar y lon foawr o flaen Ger y Llan ac yn beryglus i draffig. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd a'r Heddlu gan fod pryder am ddiogelwch y ffordd.

17. **Llwybrau a Mynwentydd.** Ebost N Schofield; Cais am roi turf astro Gorphwysfa – pawb yn gytun fod hyn yn dderbyniol gan fod y bedd mewn rhan nad yw'n cael ei dorri, a mae'r bedd wedi ei gau i fewn efo cyrbiau. Angen cysylltu efo Designer Signs i roi Perspex newydd ar hysbysfwrdd mynwent Gorphwysfa; Angen ychwanegu llwybr Pont Lloc at y rhestr llwybrau ar gyfer y tendr newydd. Rhan uchaf o lwybr Lon Tyddyn Agnes a Nant Fron – coed angen eu torri.

18. **Materion yn ymwedd a'r heddlu.** Dim i'w adrodd.

19. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngrwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc ; Cyngor Gwynedd Etholiad £580.00. Caniatau.

20. **Ceisiadau am arian - dim.**

21. **Gwefan** - Dorothea Lakes, a diweddarau manylion Cyngorwyr.